# SANT GWYDDELAN



Mae Sant Gwyddelan yn rhan o ardal Weinidogaeth Bro Gwydyr yn esgobaeth Bangor (Yr Eglwys yng Nghymru). Mae Bro Gwydyr yn grŵp o bum cymuned Eglwysig yn yr ardal, yng ngofal ein gweinidog, y Parchedig Stuart Elliot. Rydym yn cynnal gwasanaethau dwyieithog ddwywaith y mis, fel arfer ar y dydd Sul cyntaf a'r trydydd o bob mis, am 9:30yb, gyda the a choffi yn dilyn y gwasanaeth. Mae croeso i bawb i'r holl wasanaethau a'r amrywiaeth eang o ddigwyddiadau eraill gaiff eu cynnal yn ardal y weinidogaeth a'r cyffiniau. Mae modd trefnu gwasanaethau arbennig, gan gynnwys priodasau, angladdau a bedyddiadau gyda Stuart. Mae manylion llawn o'r hyn sy'n digwydd ar raglenni papur sydd wedi'u gadael yn yr Eglwys, ar y cylchlythyr misol, neu ar galendr ardal y weinidogaeth ar-lein drwy'r tudalennau gwe https://brogwydyr.cymru/ lle mae mwy o wybodaeth am yr hyn sydd ymlaen.

Rydym wedi bod yn ffodus iawn o gyfleoedd i ganu gwasanaethau hwyrol weddi yn Eglwys Sant Gwyddelan ers ychydig flynyddoedd. Byddwn yn dathlu gyda'r hyn a allai fod ein hwyrol weddi olaf ar ddydd Sul y 15fed o Fehefin am 6yh. Mae hwn yn wasanaeth hyfryd ac yn ffordd wych o orffen penwythnos, dewch draw i helpu i wneud y diwrnod hwn yn hynod o arbennig.

Manylion cyswllt -

Ficer@brogwydyr.cymru   Tel :01690 710313

www.brogwydyr.cymru/

Facebook: Bro Gwydyr / St Gwyddelan's Church

Rhif Cofrestru Elusen: 1181120

Ardal Weinidogaeth **Bro Gwydyr** Ministry Area

Sue Layland

---

Awst 3 1906 – North Wales Weekly News

Yn Nyffryn Conwy, bu hi'n bwrw glaw yn ddi-baid am tua 10 awr, gyda'r canlyniad bod afon Conwy erbyn hanner dydd ddoe wedi boddi'r dolydd cyfagos. Roedd cannoedd o aceri wedi'u gorchuddio ac yng nghyffiniau Dolyddelen roedd hi'n olygfa druenus. Roedd caeau mawr o wair wedi'u boddi'n llwyr, ac yn oriau mân y bore roedd ffermwyr i'w gweld yn cerdded trwy'r dŵr oedd at eu pen-gliniau yn y gobaith o achub y gwair oedd yn dal allan. Roedd cnydau eraill, yn ogystal ag eiddo, wedi'u difrodi'n sylweddol a llawer o ddefaid wedi marw.